Y Tŷ Cenhadol yn Amsterdam

Cyfle Unigryw

1 MEDI 2008
tan
30 MEHEFIN 2009

(Cyfiaethwyd gan Siôn Evans, Coleg y Bala)

Ymunwch gyda'r Tŷ

Ydych chi rhwng 18 a 25? Ydi chi'n chwilio am gyfle i archwilio eich hun, eich ffydd a'r byd - trwy wasanaeth a gofal? A fyddech yn hoffi gweithio gyda phobl ifanc arall, fel rhan o gymuned Gristnogol fychan, a fyddai'n rhoi ac yn rhannu, ac a fyddai'n gwneud gwahaniaeth? Ydi'r syniad o fyw a gweithio ynghanol Amsterdam yn apelio atoch? A ydych yn barod i gyfnewid 10 mis o'ch bywyd am fwyd, llety ac arian poced? Os mai 'Ydw' yw'r ateb i'r cwestiynau yma, yna mae'r Tŷ Cenhadol ar eich cyfer chi!

Beth yw'r Tŷ Cenhadol?

Cymuned ryngwladol o 8 o bobl ifanc yn byw gyda'i am ddeg mis mewn Tŷ Cenhadol. Bydd yr 8 ohonynt yn byw gyda'i gilydd am ddeg mis mewn tŷ yn Amsterdam. Bydd pob aelod o'r gymuned yn gweithio llawn amser fel gwirfoddolwr mewn gwahanol brosectau diaconaidd (gwasanaeth a gofal) yn Amsterdam. Byddant yn cynnwys prosiectau gydag ymfudwyr, troseddwyr, pobl ifanc, defnyddwyr cyffuriau a phobl digartref. Amsterdam yw dinas mwyaf yr Iseldiroedd, ac y mae llawer o bobl yno sydd ag anawsterau megis tlodi a dibyniaeth ac sy'n cael ei hunain mewn amgylchiadau anodd. Bydd angen i wirfoddolwyr y Tŷ Cenhadol i gefnogi a chynorthwyo'r bobl yma i fyw'n annibynnol. Bydd y prosiectau yn cynnwys::

- De Regenboog: prosiect sy'n cynnig cymorth i ddefnyddwyr cyffuriau.
- De Kloof: prosiect ar gyfer pobl digartref.
- Gwaith ar y stryd gyda phobl ifanc digartref.
- Prosiect eglwysig cenhadol ar gyfer plant ac ieuenctid difreintiedig;

…i enwi ond ychydig!

Y mae angen gwirfoddolwyr gyda digon o egni ac amynedd, yn ogystal ar awydd i helpu eraill. Gallai'r gwaith yma gynnwys trefnu chwaraeon, cynnig cyfeillgarwch a chlust i wrando, helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd, neu gynnig gofal ymarferol.

Bydd pawb yn y Tŷ Cenhadol yn gweithio ar brosiect gwahanol, a gallai hyn fod ar wahanol amseroedd o'r wythnos. Efallai y bydd angen gweithio min nos neu ar benwythnos ar rai o'r prosiectau, ond ni fydd angen gweithio yn ystod y nos. Bydd pob un yn gweithio 40awr yr wythnos gyda dau ddiwrnod i ffwrdd, a chyfle i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau diwillianol, adnoddau chwaraeon a'r holl siopiau sydd gan Amsterdam i'w cynnig

Cymuned Gristnogol

Yn ogystal â gwirfoddoli yn y prosiectau fe fyddwch hefyd yn ffurfio rhan hanfodol o gymuned y Tŷ Cenhadol. Byddwch yn cyd-fyw fel cymuned rhyngwladol, ac yn adeiladu cymdeithas gyda'ch gilydd.

Criw *y Tŷ Cenhadol 2006-7*

Er mwyn cyflawni hyn byddwch yn cyfarfod yn gyson i weddïo ac i fyfyrio. Hefyd byddwch yn cael prosiectau i'w cyflawni fel tîm megis cynnal pryd bwyd i'r henoed yn yr ardal neu drefnu gweithgaredd i blant lleol.

Ar ddydd Sul byddwch yn cael eich neilltuo i Eglwys leol arbennig, ac yno y byddwch yn mynychu trwy gydol eich cyfnod yn Amsterdam. Golyga hyn y bydd cyswllt yn cael ei greu rhwng y Tŷ Cenhadol a'r Eglwys Brotestannaidd leol

Pwy fydd yn y Tŷ Cenhadol?
Wyth o wirfoddolwyr ifanc, o saith gwlad wahanol fydd yn ffurfio aelodau'r Tŷ Cenhadol. Pump o Loegr, Alban, Cymru a'r Iseldiroedd; un o'r Almaen neu Dwyrain Ewrop; a dau o du allan i Ewrop. Bydd y rhan fwyaf ohonynt yn perthyn i Enwad sydd yn aelod o Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM). Byddwch yn byw ar lawr uchaf yr adeilad 'Amstelrank' ynghanol Amsterdam. Bydd gennych eich ystafell wely eich hunain, a byddwch yn rhannu cegin a lolfa gyda'r gweddill. Gyda'ch gilydd byddwch yn gyfrifol am siopa, paratoi bwyd a glanhau.

Pa fath o gefnogaeth fydd ar gael?
Bydd yna hyfforddwr yn byw mewn yn y Tŷ Cenhadol. Bydd ef/hi yna ar gyfer cymorth o ddydd i ddydd. Hefyd bydd pob aelod yn cael ei neilltuo i fentor arbennig, a fydd ar gael ar gyfer cefnogaeth bersonol, sgwrs neu unrhyw anghenion arall. Bydd y mentoriaid yma yn ffurfio rhan o grŵp cefnogi'r Tŷ Cenhadol, a fydd yn cael ei gadeirio gan gydlynydd yr holl raglen.

Pwy sy'n trefnu'r Tŷ Cenhadol?
Mae'r Tŷ Cenhadol yn brosiect (Adran Gwasanaeth a Gwaith Ieuenctid) Eglwys Protestanaidd Amsterdam, Adran Gwaith Ieuenctid Eglwys Protestannaidd yr Iseldiroedd (PCN) a Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM). Y mae'r Tŷ Cenhadol yn rhan o raglen blwyddyn ddiaconaidd y PCN, sydd yn rhoi cyfle i 50 o bobl ifanc wirfoddoli i weithio am flwyddyn yn yr Iseldiroedd. Maent yn gweithio ymhob rhan o'r Iseldiroedd ond yn cyfarfod gyda'i gilydd yn rheolaidd ar gyfer adborth, penwythnosau hyfforddi ac i ddysgu'r iaith Iseldireg.

Criw *y Tŷ Cenhadol 2006-7*

Pryd mae'n dechrau?
Bydd prosiect y Tŷ Cenhadol yn dechrau ar y 1af o Medi 2008 ac yn gorffen ar y 30ain o Fehefin 2009. Cynhelir diwrnodau agoriadol yn Utrecht er mwyn rhoi cyfarwyddyd a dysgu'r iaith. Wedi hynny byddwch yn symud i Amsterdam.

Pa sgiliau sydd ei angen?
Ni fydd gofyn am sgiliau neu brofiad penodol ar gyfer y prosiectau, ond y mae yna rhai gofynion er mwyn cael eich derbyn i'r Tŷ Cenhadol. Mae angen i chi fod:

- rhwng 18 – 25
- yn sengl, heb blant
- mewn iechyd da
- yn gweithio'n dda mewn tîm
- yn barod i gymryd rhan yng nghenhadaeth Duw trwy wasanaethu eraill
- yn hyblyg ac yn agored i newid
- aeddfed yn eich ffydd
- yn gallu siarad Saesneg ac yn barod i ddysgu Iseldireg
- yn ymroddgar ac yn gallu gweithio yn annibynnol

Yn ychwanegol at hyn dylech fod:

- yn mwynhau bod yn rhan o gymuned ryngwladol ac yn dysgu am ffordd o fyw a diwilliant eraill
- gennych sgiliau cymdeithasu da
- yn mynychu Enwad sydd yn aelod o CWM. (e.e. Annibynwyr neu Eglwys Bresbyteraidd Cymru)

Beth fydd y gost?
Bydd Eglwys Amsterdam, Eglwys Protestannaidd yr Iseldiroedd a CWM Ewrop yn darparu lle i aros am 10 mis ac arian poced o €150 y mis, yn ogystal â phenwythnosau hyfforddi a gwersi iaith. Bydd yr Eglwys Brebyteraidd yn gyfrifol am gostau teithio i Amsterdam ac yswiriant a.y.b. ar gyfer ei cynrychiolydd (Ond efallai y bydd rhai enwadau yn gofyn i'r unigolion eu hunain gyfrannu at hyn.)

Sut i wneud cais?
Os oes gyda chi ddiddordeb i ymuno yn y Tŷ Cenhadol cysylltwch gyda'ch enwad (Ar gyfer Eglwys Bresbyteraidd Cymru cysylltwch gyda Siôn Evans, Coleg y Bala 01678 520 565) Byddant yn anfon ffurflen gais i chi. Cwblhewch a dychwelwch y ffurflen nôl atynt, gan gynnwys llythr yn egluro pam eich bod eisiau ymuno gyda'r Tŷ Cenhadol. Bydd angen i chi ymateb mor gyflym a phosib gan fod y cyfnod penodi yn dod i ben ar ddiwedd Mawrth 2008.

Am ragor o wybodaeth Cysylltwch â:
CWM Ewrop
Prosiect Tŷ Cenhadol
☎ 00 44 (0)207 278 9655
ebost: office@cwmeurope.org
gwefan: www.cwmeurope.org